**Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 15-02(p7)**

**Dyddiad :** 31 Hydref 2002
**Amser :** 9.00am - 12.30pm
**Lleoliad :** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
**Teitl :** Adroddiad am y Cronfeydd Strwythurol

## CRYNODEB

1. Yn y papur hwn rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf am Raglenni'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru. Cyfarfu Pwyllgor Monitro'r Rhaglen (PMRh) ar gyfer Amcan 1 ar 16 Medi 2002 ac Amcan 2 ar 1 Gorffennaf 2002: nid yw PMRh Amcan 3 wedi cwrdd ers i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd gyfarfod ddiwethaf. Hefyd, bydd Cadeiryddion Pwyllgorau Amcan 1, 2 a 3 yn cyflwyno'u hadroddiadau.

## ARGYMHELLIAD

2. Bod y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn nodi'r Adroddiad am hynt y Rhaglenni.

## 3. PRIF BWYNTIAU

Hyd at 30 Medi 2002 roedd £426 miliwn o arian o'r Cronfeydd Strwythurol wedi'i ymrwymo i dros 1,000 o brosiectau.

Ers y cyfarfod blaenorol cymeradwywyd 184 o brosiectau. Cafwyd nifer o ddigwyddiadau allweddol, gan gynnwys:

- Lansio Cymorth Cymru - prosiect i hyrwyddo a helpu i gael mwy o gydweithrediad rhwng y Sefydliadau Addysg Uwch a'r Mentrau Bach a Chanolig.
- Lansio Technium OpTIC - prosiect yng Ngogledd Cymru, yng nghanol Clwstwr Optroneg Cymru, sy'n ganolfan o ragoriaeth.
- Lansio cyfres o daflenni, a baratowyd gan WEFO, sy'n ffynhonnell werthfawr o wybodaeth ar gyfer y sawl sydd â diddordeb mewn gwneud cais am gyllid o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.

Ymhlith y digwyddiadau sydd ar y gweill mae:

- Lansio rhaglenni gwaith Partneriaethau Datblygu EQUAL ar 13 Tachwedd 2002.

## Y DIWEDDARAF AM Y RHAGLENNI

**AMCAN 1**

4. Erbyn 30 Medi 2002, roedd 656 o brosiectau wedi cael cynnig £380.2 miliwn o grant. Mae hyn tua 33% o gyllid Amcan 1. Yn Atodiad 1 mae manylion y dyraniadau ariannol dangosol hyd at fis Rhagfyr 2002, a dangosir hefyd yr arian sydd wedi'i dalu a'i ymrwymo hyd at 30 Medi 2002. Yn Atodiad 2 ceir adroddiad ariannol manwl fesul Blaenoriaeth.

5. Ymhlith y prosiectau a gymeradwywyd ers mis Mehefin 2002 mae:

- Ehangu Porthladd Caergybi - mae'r prosiect yn costio £12.3 miliwn ac mae'n cynnwys gwaith cyfalaf i gynyddu maint y porthladd yng nghyd-destun adfywio Caergybi.

- Technium digidol - mae'r prosiect yn costio £10.6 miliwn a bydd yn rhan o'r rhwydwaith o Dechniums ledled De Orllewin Cymru. Bydd yn ymwneud yn gyfan gwbl â thechnoleg ddigidol ac yn helpu'r sector economaidd hwnnw dyfu yng Nghymru.

**Hynt y Blaenoriaethau**

6. Mae'r ffigurau sy'n cael eu proffwydo yn dangos bod pethau'n mynd rhagddynt yn dda yn y rhan fwyaf o feysydd., although in some Priorities these are proving to be more of a challenge Mae camau penodol wedi'u cymryd yn y gwahanol Flaenoriaethau, fel a ganlyn:

<u>Blaenoriaeth 1 - Ehangu a datblygu'r sylfaen Mentrau Bach a Chanolig</u>

7. Mae'r ymrwymiadau o fewn y Flaenoriaeth yn mynd rhagddynt yn gyson. Mae strategaeth glir yn ei lle ar gyfer cyflawni'r mesurau ac eithrio, o bosibl, mesur 3, Cymorth i Fusnesau, lle mae hynt y flaenoriaeth ynghlwm wrth yr adolygiad o'r Cymorth i Fusnesau.Er nad oedd nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gan WEFO yn uchel, mae tystiolaeth bod cynnydd yn y gweithgarwch datblygiadol o fewn y partneriaethau. Tbut Ar y cyfan, nid oes prinder prosiectau posibl ac mae WEFO yn weithgar iawn o ran annog prosiectau i ddod ymlaen pan fydd y gwaith datblygu angenrheidiol wedi'i orffen. Mae'r ymrwymiad a ragwelir wedi'i ostwng rhyw gymaint i adlewyrchu'r ffaith nad yw'r ceisiadau prosiect a ddisgwylir yn y mesur cymorth i fusnesau wedi cael eu cyflwyno hyd yma i WEFO ac felly ni ddisgwylir iddynt gael eu cymeradwyo tan y Flwyddyn Newydd. Mae'r ymrwymiad a ragwelir yn parhau uwchlaw'r dyraniad dangosol ar gyfer 2000-2002.

Mae'r canlynol yn werth ei nodi:

- Mae Mesur 1, cymorth ariannol ar gyfer Mentrau Bach a Chanolig wedi cael ei ail-agor

ar gyfer ceisiadau ar sail rownd ymgeisio gyda dyddiad cau ym mis Hydref 2002. Mae cyfanswm o £10 miliwn o grant ERDF ar gael ar gyfer y prosiectau hyn. Disgwylir i weddill yr arian, sef £8 miliwn, gael ei neilltuo yn 2003. Mae cynlluniau grant Awdurdodau Lleol, sydd wedi'u capio ar 50%, wedi cael y cyfle i wneud cais am y 50% sy'n weddill lle cymerwyd camau mawr ymlaen gyda'r cynllun.

- Araf fu'r broses o ymrwymo arian yn y mesur cymorth i fusnesau. Mae'n hysbys bod nifer o brosiectau ar y gweill, a bydd sawl un ohonynt yn cael eu cyflwyno i WEFO yn y dyfodol agos. Yn ddiweddar argymhellwyd prosiect Strategaeth Cyfraddau Geni Busnesau, ac mae hwn yn rhan allweddol o'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth ar gyfer Cymru.

Mae camau breision yn parhau i gael eu cymryd o ran datblygu safleoedd ac adeiladau. Mae'r galw'n parhau'n uchel. Mae partneriaethau lleol wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd ar lefel is-ranbarthol i glustnodi blaenoriaethau.

<u>Blaenoriaeth 2 - Datblygu arloesedd</u>

8. Mae'r flaenoriaeth yn cyflawni'n dda, ar y cyfan, yn enwedig o ran arloesedd, ymchwil a datblygu. Dywedwyd wrth WEFO bod digon o brosiectau ar y gweill i ymrwymo'r holl adnoddau sydd ar gael ar gyfer y rhaglen yn achos y mesur cefnogi TGCh a'r mesur arloesedd, ymchwil a datblygu. Bydd y cyhoeddiad a wnaeth y Cynulliad yn ddiweddar ynghylch cyflwyno band eang yn helpu i gyflawni'r mesur seilwaith TGCh. Mae trafodaethau ar y gweill ynghylch a ellid cyflawni'r mesur hwn trwy brosiect strategol allweddol yn hytrach na thrwy gyfrwng nifer o gynigion llai. Mae WEFO wedi sefydlu cyfarfodydd er mwyn bwrw ymlaen â syniadau am brosiectau ar gyfer datblygu'r sector ynni glân lle gwelwyd bod nifer o brosiectau posibl yn symud yn raddol tuag at geisiadau llawn.

I'w nodi:

- Mae'r camau a gymerwyd yn parhau i fod yn dda o ran arloesedd, ymchwil a datblygu ac mae nifer o brosiectau Technium wedi'u cymeradwyo yn ddiweddar - Technium Digidol (Prifysgol Abertawe), Technium II (WDA). Cytunwyd na ddylid cyfyngu ar ymrwymo'r adnoddau yn y mesur hwn ymlaen llaw i brosiectau o ansawdd da.

- Mae ceisiadau wedi dod i law am gymorth o dan y mesur seilwaith TGCh.

- Mae ceisiadau sy'n hawlio grant o tua £1 miliwn yn cael eu hystyried o dan y mesur datblygu'r sector ynni glân.

<u>Blaenoriaeth 3 - adfywiad economaidd cymunedol</u>

9. Mae'r dyraniadau dangosol i bartneriaethau lleol a rhanbarthol yn gweithio'n dda o ran galluogi partneriaethau i gynllunio a blaenoriaethu prosiectau. Mae llawer yn cael ei wneud i ddatblygu prosiectau ar draws y pedwar Mesur yn y Flaenoriaeth ac ar draws holl ranbarth Amcan 1. Yn ogystal â'r llu o syniadau sy'n cael eu datblygu'n lleol, mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yn datblygu cyllid allweddol ym Mesur 1 (meithrin sgiliau ar gyfer unigolion) a Mesur 4 (yr economi gymdeithasol) i helpu i fanteisio ar y Rhaglen.

However, whilst cEr bod y cyllid o fewn y Flaenoriaeth yn cael ei ymrwymo'n raddol nid yw ar hyn o bryd wedi cyrraedd y lefelau a broffwydwyd yn y Cynllun Busnes a Monitro Blynyddol a luniwyd yn gynharach eleni. Bydd y prosiectau sydd gyda WEFO i'w harfarnu ac sy'n debygol o gael eu cymeradwyo yn gwella'r sefyllfa. Ond mae WEFO a'r Bartneriaeth Strategaeth Asedau Cymunedol wrthi'n ystyried a oes modd cyflymu'r raddfa neilltuo cyllid. Mae'r hyn sy'n rhwystro'r sector gwirfoddol rhag manteisio ar y cyllid a sut i fynd i'r afael â'r rhwystrau hynny yn cael eu hystyried, yn ogystal â chyfle i ledaenu arfer da.

Mae ymgeiswyr yn cael eu hannog i wneud y gorau o'r cyllid cyfatebol sydd ar gael i brosiectau o'r cynllun Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a'r Gronfa Adfywio Lleol. Denodd y rownd ymgeisio am gyllid o'r Gronfa Adfywio Lleol ar gyfer y sector gwirfoddol 14 o geisiadau Amcan 1 fis Mehefin eleni, a chafwyd 15 arall yn y rownd ymgeisio a ddaeth i ben ar 4 Hydref.

Blaenoriaeth 4 – Datblygu Pobl

10. Mae'r cyllid a ymrwymwyd i'r Flaenoriaeth hon wedi aros yn uchel yn y rhan fwyaf o'r mesurau. Mae lefel bresennol yr ymrwymiad a llif cyson y ceisiadau yn awgrymu y bydd yr ymrwymiad yn cyrraedd y targed a ragwelwyd ar gyfer mis Rhagfyr 2002.

- Mae camau wedi'u cymryd, mewn cydweithrediad â'r partneriaethau i gynyddu'r hyn a gaiff ei gyflawni yn 2002 yn y mesurau hynny sydd heb gyrraedd y targed, sef:

  Mesur 5: Gwella cyfranogiad merched yn y farchnad lafur.

  Yn y chwe mis diwethaf, mae'r ymrwymiad wedi codi o 51% i 83% o'r dyraniad ar gyfer 2000-2002.

  Mesur 6: Rhagweld anghenion sgiliau a'u dadansoddi

  Mae'r ymrwymiad erbyn hyn yn 80%. Ar hyn o bryd mae cais gan Sgiliau Dyfodol Cymru yn cael ei arfarnu ac os caiff ei gymeradwyo bydd yn defnyddio gweddill y dyraniad ar gyfer 2000-2002.

Blaenoriaeth 5 - Datblygu gwledig a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

11. Mae camau boddhaol yn parhau i gael eu cymryd o ran ymrwymo cyllid yn y Flaenoriaeth hon. Ymhlith y materion allweddol mae:

- Mae'r fenter Cyswllt Ffermio a'r Grant Prosesu a Marchnata (PMG) yn cael eu gweithredu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r WDA trwy ddefnyddio cyllid o fesurau 1, 2, a 5 o Flaenoriaeth 5. Bwriadwyd lansio Cyswllt Ffermio fis Mawrth 2001 ond gohiriwyd hyn tan fis Medi yn dilyn argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau (CTG). Am yr un rheswm, er bod y Grant Prosesu a Marchnata wedi cael ei lansio ym mis Mai 2001, ychydig o hyrwyddo a wnaed yn ystod y clwy. O ganlyniad mae'r ymrwymiadau a'r gwariant ar y prosiectau hyn ar hyn o bryd yn is nag a broffwydwyd yn wreiddiol. well Serch hynny, mae pethau'n dechrau symud o ran rhoi'r prosiectau ar waith.
- Er na ddefnyddiwyd yr 20% o'r cyllid na chafodd ei neilltuo ym mesurau 1, 2 a 5, mae rhai arwyddion cynnar o'r gwelliant a ddisgwylir o ran defnyddio'r cyllid ym mesurau 5.4. a 5.5, yn enwedig y prosiectau sy'n cael eu cefnogi gan arian cyfatebol o'r Gronfa Adfywio Lleol.T. However Mae WEFO yn parhau i hysbysebu bod y cyllid hwn ar gael.
- Er mai bach iawn o weithgarwch a welwyd ym mesur 9 (Pysgodfeydd a Dyframaethu), mae WEFO wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran ennyn mwy o ddiddordeb. , Mae bron hanner y cyllid wedi'i ymrwymo i bedwar prosiect ac mae llawer mwy yn cael eu datblygu, gyda'r nod, yn bennaf, o helpu'r sector pysgota'r glannau, sy'n lleol dros ben.

- Mae'r ymrwymiadau ym Mlaenoriaeth 5, mesur 4 wedi cynyddu'n gyson. Mae nifer o geisiadau eisoes yn cael eu harfarnu ac mae mwy ar y gweill.

- Mae Blaenoriaeth 5, mesur 6, Hybu Datblygiad Economaidd Lleol, yn dod ymlaen yn dda. Mae'r Partneriaethau Lleol yn dechrau manteisio ar gyfran helaeth o'u dyraniadau dangosol.

<u>Blaenoriaeth 6 - Datblygu Seilwaith Strategol</u>

12. Cafwyd rhywfaint o lwyddiant dod â phrosiectau ymlaen. Nid yw'r Flaenoriaeth yn brin o brosiectau ond mae'n parhau'n awyddus i ddod o hyd i brosiectau o ansawdd da. Ar ôl clustnodi prosiectau o flaenoriaeth yn y mesur trafnidiaeth mae WEFO wedi trefnu ymweliad â phob un o'r noddwyr posibl i drafod sut i fwrw ymlaen â'r prosiectau. Gwneir pob ymdrech i ddatblygu'r prosiectau hyn cyn gynted â phosibl er mwyn symud ymlaen tuag at yr ymrwymiad a broffwydwyd. Mae dau brosiect rhyngfoddol wedi cael eu cymeradwyo, un yn Abertawe a'r llall yn ymwneud â datblygu porthladd Caergybi.

Mae WEFO wedi trefnu cyfarfod i drafod y blaenoriaethau ar gyfer y mesur seilwaith ynni am mai prin yw'r prosiectau sy'n cael eu cynnig er bod y mesur wedi ennyn cryn ddiddordeb.a good Bydd agwedd flaenweithgar debyg yn cael ei chymryd ar gyfer y mesur Seilwaith Amgylcheddol er mwyn clustnodi prosiectau a all ddod ymlaen yn gynt. Hefyd, bu'r Bartneriaeth Seilwaith Rhanbarthol yn weithgar iawn o ran clustnodi syniadau a phrosiectau.

Un datblygiad arwyddocaol yw'r gwaith a wnaed tuag at glustnodi prosiectau ar gyfer safleoedd ac adeiladau strategol. Mae'r partneriaethau lleol wedi gweithio'n agos gyda'i gilydd o fewn yr is-ranbarthau i glustnodi prosiectau o flaenoriaeth ar gyfer safleoedd ac adeiladau strategol o dan fesur 6.3, ac mae rhai o'r rhain eisoes yn cael eu harfarnu gan WEFO.

**Dadneilltuo**

13. Mae WEFO yn parhau i gadw llygad barcud ar y sefyllfa mewn perthynas â dadneilltuo, y cyfeirir ato'n gyffredin fel N+2. Mae'r targedau yn cael eu dyrannu fesul Cronfa a Rhaglen. Ar gyfer Cronfeydd ERDF ac ESF, mae'r ffigurau presennol yn dangos bod y Rhaglen ar y llwybr iawn o ran cwrdd â gofynion 2002 ar gyfer hawliadau a wnaed i'r Comisiwn Ewropeaidd. However, fYn achos EAGGF, mae rhai prosiectau mawr y bydd angen iddynt wario yn unol â'u proffil os ydym am anelu at gwrdd â gofynion 2002.which could represent a risk if the projects failMae WEFO yn monitro hyn yn ofalus. Ceir y manylion yn Ffig.1

**Ffig 1 – Hynt Amcan 1 yn erbyn N+2**

| Cronfa | Targed N+2 (£m) [1] | Blaendaliad (£m) | Taliadau ar Wariant a Ardystiwyd hyd at ddiwedd Medi 2002 (£m) [2] | Gweddill hyd at 31 Rhag 2002 2002 (£m) |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop | 108.78 | 47.622 | 56.488 | 4.6698 |
| Cronfa Gymdeithasol Ewrop | 57.608 | 25.258 | 42.111 | (9.761) |
| Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop | 12.715 | 5.489 | 2.073 | 5.153 |

Mae targed y Comisiwn wedi'i bennu mewn Ewros, mae'r ffigurau a ddyfynnwyd yn seiliedig ar gyfradd cyfnewid o £1:€1.62.

[2] Dim ond taliadau grant sy'n cael eu hategu gan wariant a ardystiwyd (h.y. dim blaendaliadau) y gellir eu cyflwyno i'r CE at ddibenion cael arian.

Mae rhagolwg o gyllidebau'r dyfodol ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol ynghlwm, yn Atodiad 9.

**Canlyniadau'r Rhaglen**

14. Mae dadansoddiad dechreuol o'r canlyniadau, ar lefel y blaenoriaethau, yn Atodiad 3**.**

**RHAGLEN AMCAN 2 A'R RHAGLEN DROSIANNOL**

15. Cynhaliwyd cyfarfod blaenorol Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ar 1 Gorffennaf 2002, a threfnwyd y cyfarfod nesaf ar 11 Tachwedd 2002.
16. Ar 30 Medi 2002, roedd 58 prosiect wedi derbyn cynigion o £8.8m mewn grant, a oedd tua 12% o'r Cronfeydd. Yn Atodiad 4 mae manylion y dyraniadau ariannol dangosol hyd at fis Rhagfyr 2002, a dangosir hefyd yr arian sydd wedi'i dalu a'i ymrwymo hyd at 30 Medi 2002. Yn Atodiad 5 ceir adroddiad ariannol manwl fesul Blaenoriaeth.
17. Mae cryn ymdrech yn cael ei gwneud i gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen a chynyddu hefyd y lefelau ymrwymiad. Ar 14 Mehefin, cynhaliwyd cyfarfod gyda WEFO a chynrychiolwyr y partneriaethau rhanbarthol a lleol. Cadeiriwyd y cyfarfod gan John Griffiths AC, a chafodd pob partneriaeth gyfle i roi gwybodaeth am yr hyn a wnaed ganddi, clustnodi materion (rhai go iawn a rhai tybiedig) a oedd yn rhwystr rhag manteisio ar gyllid Amcan 2, ac awgrymu atebion posibl. O'r cyfarfod hwn lluniodd WEFO Gynllun Gweithredu a gyflwynwyd yng nghyfarfod blaenorol Pwyllgor Monitro'r Rhaglen.
18. Ymhlith y prosiectau a gymeradwywyd yn ddiweddar mae:

    - Prosiect twristiaeth gynaliadwy ar Gamlas Trefaldwyn, sy'n costio £267k. Bydd Rhan 1 yn cynnwys paratoi cynllun rheoli ar gyfer adfer y Gamlas yn gynaliadwy; yn Rhan 2 penodir Swyddog Cyswllt i weithio gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Trefaldwyn ac i roi camau ar waith sy'n golygu ymwneud â'r cyhoedd ac arallgyfeirio gwledig.

    - Bydd prosiect Northwest Credit Union Casnewydd, sy'n costio £230k, yn golygu y gall ehangu ei fond cyffredin i Gasnewydd gyfan a chynnig cyfleuster cynilo a benthyca sy'n croesi ffiniau cymdeithasol ac economaidd.

<u>Hynt y Rhaglenni</u>

19. Mae pum rownd ymgeisio wedi'u cynnal a daeth Rownd 5 i ben ar 4 Hydref. Rhagwelir y bydd cyfanswm o £26.1 miliwn wedi'i ymrwymo erbyn mis Rhagfyr 2002, sy'n cynrychioli 66% o ddyraniad y Rhaglen ar gyfer 2002. Hefyd, mae ceisiadau Rownd 5, sy'n werth £6.513 miliwn, wrthi'n cael eu hystyried gan y partneriaethau lleol a rhanbarthol.

20. Mae sawl peth yn cael effaith ar nifer y ceisiadau sy'n dod i'r fei, yn enwedig materion sy'n ymwneud â chyfyngiadau Cymorth Gwladol, a'r amrywiadau yn y cyfraddau ymyrryd. Mae cwmpas y Rhaglen yn gyfyngedig o gymharu â Rhaglen Amcan 1, yn enwedig yn yr ardaloedd Trosiannol, ac mae hyn yn cyfyngu ar ystod y prosiectau cymwys. Serch hynny, mae'r Comisiwn wedi llacio rhywfaint ar y strategaeth Drosiannol, oherwydd erbyn hyn caniateir

cynlluniau grant arloesol. .,iAt hynny, mae'r Comisiwn wedi rhoi mwy o eglurhad am gostau Rheol 12 - dylai hyn liniaru rhywfaint ar y cyfyngiadau penodol ar ddarpar geisiadau. Dylai'r ffactorau hyn gael effaith ar raglen Amcan 2.

21. Rhoddir anogaeth hefyd i gyflwyno ceisiadau ymbarel trwy'r partneriaethau lleol, fel y gall grwpiau cymunedol fanteisio'n ddidrafferth ar y cronfeydd strwythurol.

22. Bydd yr holl Bartneriaethau yn adolygu eu cynlluniau gweithredu yn nhymor yr Hydref eleni - bydd hyn yn gyfle i glustnodi gweithgareddau a all arwain at geisiadau am brosiectau.

23. Mae Pwyllgor Monitro'r Rhaglen a Thîm Cyfathrebu WEFO yn edrych ar bob ffordd bosibl o annog a chynyddu'r ceisiadau.currently

**AMCAN 3**

24. Ar 30 Medi 2002, roedd 305 o brosiectau, gan gynnwys 4 prosiect cymorth technegol, wedi cael cynigion o £30.7 miliwn mewn grant, a oedd yn cynrychioli 38% o holl gyllideb Cronfeydd Amcan 3. Yn Atodiad 6 mae manylion y dyraniadau ariannol dangosol hyd at fis Rhagfyr 2002, a dangosir hefyd yr arian sydd wedi'i dalu a'i ymrwymo hyd at 30 Medi 2002. Yn Atodiad 7 ceir adroddiad ariannol manwl fesul Blaenoriaeth.

25. Ers mis Mehefin 2002, mae nifer o brosiectau wedi'u cymeradwyo, gan gynnwys:

- Prosiect integreiddio cyflogaeth ar gyfer pobl dros 16 oed, sy'n costio £542k. Bydd hwn yn darparu cefnogaeth wedi'i theilwrio'n bwrpasol ar gyfer pobl ifanc sydd wedi troseddu neu sy'n debygol o droseddu ac sydd dan anfantais fwy na'r cyffredin yn y farchnad lafur fel y gallant gael addysg a dod ymlaen yn y byd trwy gyfrwng cyflogaeth.
- Bydd prosiect Cronfa Sgiliau Cymru, sy'n costio £157k, yn rhoi cymorth ariannol i bobl sy'n gweithio yn y diwydiant ffilmiau, teledu a'r cyfryngau rhyngweithiol yng Nghymru i'w helpu gyda'u gyrfa a'r hyfforddiant sydd ei angen arnynt.

**Hynt y Blaenoriaethau**

<u>Blaenoriaeth 1 - Datblygu Polisïau Ymarferol yn y Farchnad Lafur i Osgoi Diweithdra Hirdymor a'i Oresgyn</u>

26. Yn dod ymlaen yn dda gyda 69% o'r dyraniad dangosol hyd at ddiwedd 2002 wedi'i ymrwymo a 67 prosiect wedi'i gymeradwyo.

<u>Blaenoriaeth 2 - Cyfle Cyfartal i Bawb a Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol</u>

27. Yn dod ymlaen yn dda gyda 92% o'r dyraniad dangosol hyd at ddiwedd 2002 wedi'i ymrwymo ac 83 prosiect wedi'i gymeradwyo.

Blaenoriaeth 3 - Dysgu Gydol Oes

28. Yn dod ymlaen yn dda gyda 89% o'r dyraniad dangosol hyd at ddiwedd 2002 wedi'i ymrwymo a 53 prosiect wedi'i gymeradwyo.

Blaenoriaeth 4 - Hybu Gallu Busnesau i Gystadlu

29. Yn dod ymlaen yn dda gyda 90% o'r dyraniad dangosol hyd at ddiwedd 2002 wedi'i ymrwymo a 75 prosiect wedi'i gymeradwyo.

Blaenoriaeth 5 - Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yn y Farchnad Lafur

30. Mae hynt yn flaenoriaeth hon ychydig yn arafach gyda 45% o'r dyraniad dangosol wedi'i ymrwymo hyd at ddiwedd 2002 a 23 prosiect wedi'i gymeradwyo. Disgwylir y bydd yr ymrwymiad a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn wedi'i gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn.

**Dadneilltuo**

31. Mae'r Rhaglen hon ar y llwybr iawn i gwrdd â tharged N+2. Ceir y manylion yn Ffig.3.

**Ffig 3 – Hynt Amcan 3 yn erbyn N+2**

| Cronfa | Targed N+2 (£m) | Blaendaliadau (£m) | Taliadau ar Wariant a Ardystiwyd hyd at ddiwedd Medi 2002 (£m) | Gweddill hyd at 31 Rhag 2002 (£m) |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gymdeithasol Ewrop | 13.819 | 5.643 | 8.415 | (0.239) |

**Canlyniadau'r Rhaglen**

32. Mae dadansoddiad dechreuol o'r canlyniadau, ar lefel y blaenoriaethau, yn Atodiad 8**.**

**MENTRAU CYMUNEDOL**

**LEADER+**

33. Mae'r 7 Grwp Gweithredu Lleol LEADER+ yn mynd rhagddi gyda gweithredu eu cynlluniau busnes (cymorth grant 3 blynedd EAGGF sy'n gyfanswm o £3.4 miliwn), gan ymwneud â phrosiectau sy'n benodol i'w hardaloedd. Mae WEFO yn paratoi i gyflwyno prosiectau treiglol ar gyfer Rhaglen Weithredu 2 (prosiectau rhwng 2 neu ragor o grwpiau) ym mis Hydref 2002.

34. Mae tîm LEADER+ y WDA wedi ei sefydlu ac mae'n mynd rhagddi gyda'i rôl o hwyluso gyda'r Grwpiau. Eu rôl hwy fydd cefnogi Grwpiau Cymru fel y disgrifiwyd yn y Cytundeb Domestig rhwng y WDA a'r Cynulliad.
35. Bydd digwyddiadau yn cael eu cynnal fis Hydref a Thachwedd fydd yn cynnwys Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER+ a Rhwydwaith LEADER+ y DU. Bydd y digwyddiadau hyn yn trafod gwahanol faterion sy'n ymwneud â LEADER+. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys Gweithdy DU yn Dorset; Cynhadledd Flynyddol y DU ar Ynys Bute a chyfarfod arfaethedig ar gyfer Grwpiau Lleol Cymru ar 29 Hydref 2002.
36. Cyfarfu Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ar 2 Hydref 2002 a bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 6 Mawrth 2003.

**EQUAL**

37. Mae grant sy'n werth £1.3 miliwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop wedi'i ymrwymo i Bartneriaethau Datblygu ar gyfer y cylch ariannu. Llwyddodd y tair Partneriaeth Ddatblygu i gwblhau Gweithgaredd 1 (sefydlu'r Partneriaethau) yn unol â'r amserlen. Erbyn hyn maent yn mynd i'r afael â Gweithgaredd 2 (rhoi'r gweithgareddau y cytunwyd arnynt ar gyfer y prosiectau ar waith) ym meysydd gwella'r mynediad i'r farchnad lafur ac entrepreneuriaeth, a gaiff eu cwblhau erbyn mis Mai 2005.
38. Mae WEFO wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau meithrin sgiliau ledled Cymru fel y gall sefydliadau eraill gymryd rhan yn y Rhaglen pan fydd y cylch ymgeisio nesaf yn agor yn 2004.
39. Bydd y 3 Partneriaeth Ddatblygu yn lansio eu gweithgareddau ar y cyd ar 13 Tachwedd 2002.
40. Cynhaliwyd cyfarfod blaenorol Pwyllgor Rheoli EQUAL Cymru ar 27 Medi 2002 a byddant yn cwrdd eto ar 7 Chwefror 2003.

**URBAN II**

41. Cynhaliwyd cyfarfod blaenorol Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ar 14 Hydref 2002.
42. Mae WEFO wedi cael cyfanswm o 8 cais am gyllid, ac mae 3 prosiect arall wedi cael eu cefnogi gan y Bartneriaeth ac mae disgwyl iddynt gael eu hanfon at WEFO i'w harfarnu. Pan gânt eu cymeradwyo, bydd y prosiectau yn rhoi grantiau cymorth i fusnesau, grantiau grwpiau cymunedol a byddant yn rhoi cefnogaeth i ddarparu canolfannau dysgu gydol oes.

## INTERREG IIIA

43. Mae'r rhaglen INTERREG £40 miliwn, sy'n cefnogi prosiectau ar y cyd rhwng Iwerddon a Chymru, yn parhau i fynd rhagddi'n dda. Cafodd y rhaglenni cyntaf i gael cyllid o dan y Rhaglen eu cyhoeddi ar 10 Hydref 2002. Mae'r pecyn cyntaf yn cynnwys chwe phrosiect ar y cyd a fydd yn helpu i ddatblygu cysylltiadau rhwng Gorllewin Cymru a De Ddwyrain Iwerddon, sef:

- **Y Rhwydwaith Celtaidd ar gyfer Cefnogi Menter a Busnes:** Bydd y prosiect yn datblygu rhwydwaith o gymorth ar gyfer menter a busnes rhwng De Ddwyrain Iwerddon a De Orllewin Cymru a fydd yn cyfnewid arfer gorau ac yn hwyluso prosiectau ar y cyd.
- **Defnyddio technolegau opto-electroneg:** Nod y prosiect yw rhoi anogaeth i wneud mwy o ddefnydd o dechnolegau opto-electroneg yng Ngorllewin Cymru a Dwyrain Iwerddon.
- **Y Bartneriaeth Cefn Gwlad Celtaidd:** Prosiect peilot gyda'r nod o'i gwneud yn fwy hwylus i gymunedau gwledig gyfrannu at ddatblygiadau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd integredig. Y partneriaid yw Wicklow Uplands Council Limited (€25,000) a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (£42,000).
- **AGRI-net WORKS:** Prosiect i ddatblygu rhaglen o ddigwyddiadau a seminarau er mwyn rhoi anogaeth i gyfnewid arfer gorau rhwng busnesau gwledig ac amaethyddol.
- **Defnyddio fferïau i edrych ar ansawdd y dwr ym Môr Iwerddon:** Mae'r prosiect yn golygu gosod synwyryddion optegol ar un o longau'r Irish Ferries, sef Ulysses, sy'n hwylio rhwng Caergybi a Dulyn er mwyn mesur ansawdd y dwr ym Môr Iwerddon.
- **Effaith diwylliannol ac economaidd sinemâu yng Nghymru ac Iwerddon:** Mae'r prosiect yn golygu gwneud archwiliad o sinemâu yng Ngorllewin Cymru a Dwyrain Iwerddon a pharatoi strategaeth ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

Bydd prosiectau eraill yn cael eu cymeradwyo yn y dyfodol agos.

44. Cafwyd ymateb gwych i'r ail gylch o geisiadau am grant, gyda 29 o geisiadau dilys. Mae 7 o'r ceisiadau yn canolbwyntio ar Ogledd Cymru ac 11 ar Dde Orllewin Cymru, gyda'r gweddill yn chwilio am gymorth ar sail Cymru gyfan. Mae'r ceisiadau yn cael eu harfarnu ar hyn o bryd a byddant wedyn yn cael eu rhoi ger bron y Pwyllgorau Llywio perthnasol.

## GWERTHUSIAD CANOL TYMOR

45. Mae WEFO wedi gorffen proses gaffael Ewropeaidd ar gyfer y contractau i benodi gwerthuswyr annibynnol ar gyfer holl Raglenni'r Cronfeydd Strwythurol.

- Amcan 1: Daeth 7 bid i law yn dilyn 7 gwahoddiad i dendro. Mae'r contract wedi cael ei roi i gonsortiwm CRG Research Ltd, Fitzpatrick Associates, Prifysgol Caerdydd ynghyd ag unigolion penodol.

- Amcan 2: Daeth 5 bid i law yn dilyn 6 gwahoddiad i dendro. Mae'r contract wedi cael ei roi i'r cynnig ar y cyd oddi wrth y Ganolfan Strategaethau a Gwasanaethau Gwerthuso (CSES) a Phrifysgol Caerdydd (Canolfan Astudiaethau Uwch).

- Amcan 3: Daeth 5 bid i law yn dilyn 6 gwahoddiad i dendro. Mae'r contract wedi cael ei roi i gonsortiwm CRG Research Ltd, Fitzpatrick Associates, Prifysgol Caerdydd ynghyd ag unigolion penodol.

- LEADER+: Mae WEFO yn dal i chwilio am werthusydd annibynnol.

- URBAN II: Daeth 4 bid i law yn dilyn 5 gwahoddiad i dendro. Mae'r contract wedi cael ei roi i'r cynnig ar y cyd oddi wrth y Ganolfan Strategaethau a Gwasanaethau Gwerthuso (CSES) a Phrifysgol Caerdydd (Canolfan Astudiaethau Uwch).

- INTERREG IIIA: Daeth 3 bid i law yn dilyn 5 gwahoddiad i dendro. Mae'r contract wedi cael ei roi i gonsortiwm CRG Research Ltd, Fitzpatrick Associates, Prifysgol Caerdydd ynghyd ag unigolion penodol.

**CAMAU I'W CYMRYD YN DILYN Y CYFARFODYDD BLAENOROL**

**Amcan 1 a busnesau**

46. Yn y cyfarfod ar 12 Mehefin 2002 (eitem 3.3), gofynnwyd i WEFO roi gwybodaeth i'r Gweinidog am nifer y busnesau sydd wedi cael budd o arian Amcan 1. Bydd y wybodaeth hon ar gael, am y tro, ar ddiwedd y flwyddyn pan fydd y noddwyr wedi rhoi gwybodaeth bellach.

*Mae fersiwn Saesneg y papur hwn yn cynnys atodiadau. Yn anffodus nid yw'r atodiddau hyn ar gael yn Gymraeg.*